# Y Gwynt a'r Glaw

Rhan 1: Darllen a Deall

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un. Ticiwch y bocs wrth ochr y gair gorau i lenwi'r bwlch. Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

1. Mae'r gwynt yn______________.

chwech ☐ chwilen ☐ chwedl ☐ chwarae ☐ chwythu ☐

2. Mae'r haul yn______________.

goeden ☐ oer ☐ gynnes ☐ chwarae ☐ chwythu ☐

3. Rydw i angen ymbarel, mae hi'n______________.

heulog ☐ bwrw glaw ☐ rhewi ☐ stormus ☐ wyntog ☐

4. Aeth Megan i adeiladu dyn eira yn yr ______________.

haul ☐ eira ☐ glaw ☐ gwynt ☐ storm ☐

Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalen 2-3. Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.



## Y Gwynt a'r Haul

Roedd y gwynt a'r haul yn dadlau.

"Fi yw Brenin yr awyr," broliodd y gwynt. "Dwi'n gallu rhwygo coed a chwythu llongau i'r cyfeiriad anghywir. Does dim byd mor gryf â fi!"

"Ti?" meddai'r haul. "Dwi'n llawer cryfach na ti. Dwi'n gallu troi iâ i ddŵr a chynhesu'r ddaear i dyfu planhigion!"

Roedd y ddau dal i ffraeo pan ddywedodd yr haul, "Beth am gystadleuaeth i weld pwy yw'r cryfaf?"

"Iawn" meddai'r gwynt. "Beth sydd rhaid i mi wneud?"

"Wyt ti'n gweld y dyn yna ar y ffordd?" gofynnodd yr haul.

Edrychodd y gwynt i lawr ar y ffordd. Roedd hi'n ganol gaeaf ac roedd dyn yn mynd am dro yn yr eira. Roedd yn gwisgo côt trwchus a sgarff.

"Ydw" atebodd y gwynt.

"Wel, pwy bynnag sydd yn gallu tynnu'r côt oddi wrth y dyn yw'r cryfaf," meddai'r haul.

"O mae hynny'n hawdd!" gwaeddodd y gwynt. "Gwylia di fi, fe wna i chwythu ei gôt i ffwrdd!"

Dechreuodd y gwynt chwythu yn galed. Plygodd y coed yn hanner. Chwyrl odd y dail o amgylch coesau'r dyn ond tynnodd ei gôt yn dynnach amdano. Roedd y gwynt yn flin. Chwythodd nes bod brigau'r coed yn dechrau torri ond roedd y dyn dal yn gwisgo ei gôt i gadw'n gynnes.


"Dwi'n rhoi'r gorau iddi!" meddai'r gwynt. "Dydw i ddim yn gallu chwythu rhagor."

"Fy nhro i nesaf," meddai'r haul.



Doedd yr haul ddim yn gwneud llawer. Eisteddodd yn yr awyr gan ddanfon ei belydrau i lawr at y dyn. Yn fuan, roedd hi'n rhy boeth i'r dyn. Tynnodd ei sgarff i ffwrdd. Disgleiriodd yr haul rhagor o'i belydrau i lawr at y dyn ac mewn cyn pen dim roedd y dyn mor boeth tynnoedd ei gôt i ffwrdd.

"Fi sy'n ennill!" bloeddioedd yr haul.



Rhan 2: Darllen a Deall

1a. Dywedodd y gwynt ei fod yn gallu beth?

Ticiwch **1** ☐

rhwygo coed ☐

hedfan barcud ☐

hwylio cychod ☐

cynhesu'r ddaear ☐

1b. Pam oedd y dyn yn gwisgo côt trwchus a sgarff?

Ticiwch **2**

Roedd hi'n bwrw glaw ☐

Roedd hi'n bwrw eira ☐

Roedd hi'n heulog ☐

Roedd hi'n haf ☐

Roedd hi'n ganol gaeaf ☐

2. **Dewiswch** a **chopïwch** un **gair** sy'n dangos beth oedd yr haul yn gallu gwneud.

3. Ticiwch cywir neu anghywir bob tro. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Y gwynt yn ennill y gystadleuaeth. | | ✓ |
| Yr haul sy'n ennill y gystadleuaeth. | | |
| Roedd y dyn yn mynd am dro yn yr eira. | | |
| Roedd y gwynt yn hapus ar ddiwedd y stori. | | |
| Mae'r dyn yn tynnu ei gôt oherwydd mae'n boeth. | | |

4. Pam oedd y coed yn plygu yn hanner?

Ticiwch **1**

Plygodd y coed oherwydd Brenin yw'r gwynt. ☐

Plygodd y coed oherwydd roedd y gwynt yn gryf. ☐

Plygodd y gwynt oherwydd roedd yr haul yn gryf. ☐

5. Tynnwch **2** linell arall i gysylltu'r enwau gyda'r weithred.

Mae un llinell wedi'i gwneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Haul | gwisgo sgarff |
| Gwynt | chwythu yn galed |
| Dyn | disgleirio ei belydrau |

6. Esboniwch sut ennillodd yr haul y gystadleuaeth.

# Y Gwynt a'r Glaw **Atebion**

| Cwestiwn | Ateb | Marciau | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Rhan 1: Darllen a Deall | | | |
| 1. | Mae'r gwynt yn **chwythu**. | 1 marc | |
| 2. | Mae'r haul yn **gynnes**. | 1 marc | |
| 3. | Rydw i angen ymbarel, mae hi'n **bwrw glaw**. | 1 marc | |
| 4. | Aeth Megan i adeiladu dyn eira yn yr **eira**. | 1 marc | |
| Rhan 2: Darllen a Deall | | | |
| 1a. | Dywedodd y gwynt ei fod yn gallu beth?<br>Ticiwch **1.**<br>**rhwygo coed** | 1 marc | |
| 1b. | Pam oedd y dyn yn gwisgo côt trwchus a sgarff?<br>Ticiwch **2.**<br>**Roedd hi'n bwrw eira**<br>**Roedd hi'n ganol gaeaf** | 1 marc<br>am ddau ateb cywir | |
| 2. | **Dewiswch** a **chopïwch geiriau** sy'n dangos beth oedd yr haul yn gallu gwneud.<br>**troi iâ i ddŵr**<br>neu<br>**chynhesu'r ddaear** | 1 marc | Does dim rhaid copio'r ddau: 1 marc am un o'r dewisiadau yma. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Ticiwch **cywir** neu **anghywir** bob tro. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.<br><br>Yr haul sy'n ennill y gystadleuaeth.<br>- **Cywir**<br><br>Roedd y dyn yn mynd am dro yn yr eira.<br>- **Cywir**<br><br>Roedd y gwynt yn hapus ar ddiwedd y stori.<br>- **Anghywir**<br><br>Mae'r dyn yn tynnu ei gôt oherwydd mae'n boeth.<br><br>- **Cywir** | Hyd at 2 farc | Rhowch 2 farc am bedwar ateb cywir.<br><br>Rhowch 1 marc am ddau neu dri ateb cywir. |
| 4. | Pam oedd y coed yn plygu yn hanner?<br><br>Ticiwch **1**<br><br>**Plygodd y coed oherwydd roedd y gwynt yn gryf** | 1 marc | |
| 5. | Tynnwch 2 linell arall i gysylltu'r enwau gyda'r weithred.<br><br>Mae un llinell wedi'i gwneud yn barod i chi.<br><br>**Gwynt = chwythu yn galed**<br><br>**Dyn = gwisgo sgarff** | 1 marc | Rhowch 1 marc am y cyfateb cywir. |
| 6. | Esboniwch sut ennillodd yr haul y gystadleuaeth.<br><br>**e.e. "Roedd yr haul mor boeth tynnodd y dyn ei gôt i ffwrdd"**<br><br>**"Roedd y dyn yn dwym/cynnes/poeth felly tynnodd ei gôt i ffwrdd"** | 2 farc | 2 farc am esboniad clir.<br><br>1 marc am ddefnyddio un o'r geiriau canlynol: poeth / twym / cynnes. |